

**Y GYMDEITHAS
FFERYLLOL
FRENHINOL**

Cyfarwyddyd Proffesiynol: Ehangu Cwmpas Arfer Presgripsiynu



DYDDIAD CYHOEDDI MEHEFIN 2022

DYDDIAD ADOLYGU MEHEFIN 2026

Cynnwys

| | | |
|----|--------------------|----|
| | CYFLWYNIAD | 3 |
| 1. | YSTYRIED | 5 |
| 2. | CYNLLUNIO | 12 |
| 3. | GWEITHREDU | 14 |
| 4. | GWERTHUSO | 16 |
| 5. | ASTUDIAETHAU ACHOS | 17 |
| 6. | RHESTR WIRIO | 29 |

Cyflwyniad

Mae'r cyfarwyddyd hwn ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd eisiau ehangu eu "cwmpas arfer presgripsiynu".

Mae'n cynnig strwythur i gefnogi presgripsiynwyr i adnabod eu hanghenion datblygiadol, yn amlygu ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hyn, ac yn cynnig cyfarwyddyd ar sut i ddogfennu'r broses a'r canlyniad.

Darperir nifer o astudiaethau achos ar draws ystod o broffesiynau a lleoliadau i ddangos y broses.

Creu dogfen

Mae'r ddogfen hon wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Gyda rôl gynyddol fferyllwyr wrth bresgripsiynu ar draws pob sector, yn ogystal â llawer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol presgripsiynu eraill, nodwyd bod angen y cyfarwyddyd.

Ar sail trafodaethau gyda rhanddeiliaid aml-broffesiynol, cynhyrchwyd y ddogfen hon fel cyfarwyddyd i bresgripsiynwyr sydd eisiau ehangu eu cwmpas arfer presgripsiynu.

Cwmpas Arfer Presgripsiynu

Diffinnir hyn fel gweithgareddau presgripsiynu y mae gweithiwr proffesiynol gofal iechyd yn eu gwneud o fewn eu rôl broffesiynol. Rhaid i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol feddu ar yr hyfforddiant, y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad gofynnol i gyflawni'r gweithgareddau hyn yn gyfreithlon, yn ddiogel ac yn effeithiol. Rhaid bod ganddyn nhw hefyd yswiriant indemniad priodol ar gyfer eu rôl presgripsiynu. Gallai cwmpas arfer presgripsiynu gael ei hysbysu gan safonau rheoleiddio, polisi'r corff proffesiynol, gweithdrefnau cyflogwr, cyfarwyddyd gan sefydliadau perthnasol eraill a barn broffesiynol yr unigolyn.¹

Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio ochr yn ochr â [Fframwaith Cymhwysedd i bob Presgripsiynydd Cymdeithas Fferyllol Frenhinol \(RPS\)](#), sy'n disgrifio y wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiadau, y gweithgareddau, a'r canlyniadau y dylech chi, fel presgripsiynydd, eu dangos.

O fewn Fframwaith Cymhwysedd RPS mae datganiad cymhwysedd penodol "*Yn presgripsiynu o fewn cwmpas arfer ei hun, ac yn cydnabod cyfyngiadau ei wybodaeth a'i sgil ei hun.*" Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fyddwch eisiau ehangu, neu newid cwmpas eich arfer presgripsiynu. Mae yna nifer o resymau pam y gallai fod angen i chi ehangu cwmpas arfer presgripsiynu trwy gydol eich gyrfa.² Rhesymau posibl:

- Eich bod yn hyderus yng nghwmpas arfer presgripsiynu presennol ond yn cyfyngu eich presgripsiynu i nifer cyfyngedig o feddyginiaethau.
- Eich bod yn hyderus yng nghwmpas arfer presgripsiynu presennol ond wedi adnabod meysydd pellach a allai gefnogi gofal cleifion e.e. y cwmpas presennol yw rheoli poen cronig ond mae cyfran fawr o'r cleifion hyn yn profi iechyd meddwl gwael a byddai rheoli cyflyrau iechyd meddwl fel iselder yn un estyniad naturiol i'ch rôl.
- Gwasanaeth newydd yn cael ei sefydlu e.e. yn flaenorol yn presgripsiynu ar gyfer mân anhwylderau ond eisiau presgripsiynu mewn gwasanaeth rheoli poen.

- Newid rôl swydd e.e. rôl wreiddiol oedd presgripsiynu o fewn gofal dwys a rôl newydd yn presgripsiynu mewn clefyd cardiofasgwlaidd.
- Newid lleoliad e.e. parhau i bresgripsiynu ar gyfer cyflwr penodol ond symud o ofal sylfaenol i leoliad gofal eilaidd neu i'r gwrthwyneb.

Bydd y ddogfen gyfarwyddyd hon yn defnyddio cylch Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a dderbynnir yn gyffredinol (ystyried, cynllunio, gweithredu, gwerthuso) (Ffigur 1) i ystyried ffyrdd posibl y gallwch ehangu cwmpas eich arfer presgripsiynu. Byddem yn eich annog i nodi'ch cylch DPP, drwy ddefnyddio'r rhestr wirio a geir ar dudalen 26.

Ffigur 1:
Cylch DPP






1 Ystyried

Adnabod eich anghenion dysgu ar gyfer ehangu eich cwmpas arfer presgripsiynu

Mae yna ystod o senarios lle gallech chi, fel presgripsiynydd fod angen ehangu eich cwmpas arfer presgripsiynu (Ffigur 2).



Ffigur 2: Ffeithlun i ddangos sut y gall presgripsiynydd ehangu cwmpas arfer presgripsiynu

Aseswch eich hun yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd RPS

Cymerwch amser i ailddarllen yr holl [ddatganiadau cymhwysedd](#), gan adnabod a oes gennych unrhyw anghenion datblygiadol ar gyfer eich cwmpas arfer presgripsiynu newydd. Efallai y byddwch yn sylwi'ch bod yn gymwys mewn rhai meysydd ond yn adnabod anghenion dysgu mewn meysydd eraill.

Edrychwch drwy wahanol adrannau'r fframwaith cymhwysedd a gofynnwch i chi'ch hun a oes angen i unrhyw beth rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd newid, neu a oes pwyntiau ychwanegol y mae angen i chi eu hystyried.

Ar ôl i chi fyfyrto ar Fframwaith Cymhwyseddau'r RPS, cyfeiriwch at y tabl ar dudalen 7. Bydd y tabl cyntaf yn edrych ar yr ymgynghoriad (Parth 1) a bydd yr ail dabl yn canolbwyntio ar lywodraethu presgripsiynu (Parth 2) ac ystyriaethau y dylech eu hystyried cyn ehangu ar eich cwmpas arfer presgripsiynu.



Ffigur 3: Delwedd wedi'i thynnu o "Fframwaith Cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol i bob Presgripsiynydd"¹

Parth 1

Yr ymgynghoriad

C Y M H W Y S E D D I. Asesu'r claf

Lleoliad yr ymgynghoriad

- Lleoliad clinigol yr ymgynghoriad.
 - Anghenion ychwanegol posibl y lleoliad ymgynghori.
- Os ydych chi'n symud o bresgripsiynu o un lleoliad gofal i'r llall, efallai y bydd gennych chi alluoedd diagnostig gwahanol ar gael i chi.
- Mae preifatrwydd digonol yn y lleoliad ymgynghori yn hanfodol ar gyfer cyfrinachedd cleifion e.e. ystafell ymgynghori â chleifion mewn fferyllfa gymunedol.

Anghenion ychwanegol

- Ystyried y claf:
- Urddas, gallu, caniatâd a chyfrinachedd.
 - Sgiliau cyfathrebu.
- Mynediad at gofnodion cleifion h.y. pa gofnodion y bydd gennych fynediad atynt? A allwch chi ddarllen ac ysgrifennu ynddynt?
- Os ydych yn ehangu eich arfer presgripsiynu o oedolion i gleifion pediatrig, bydd ceisio caniatâd yn rhywbeth y bydd angen i chi ei ystyried. Hefyd, ar gyfer presgripsiynu ar gyfer cleifion pediatrig, ystyriwch [gymhwysedd Gillick neu gyfarwyddyd Fraser](#) os ydych yn presgripsiynu dull atal cenhedlu.
- A oes aelodau'r grŵp cleifion y byddwch yn eu trin a allai fod yn fregus a sut y byddwch yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu? A fydd angen i chi ddiweddar'u'ch gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)?
- Mae'n bosibl y bydd angen i chi deilwra'r ymgynghoriad ar gyfer y rheini sydd â gwahanol lythrennedd iechyd a/neu rwystrau iaith posibl i sicrhau bod eich arfer yn gynhwysol.
- Os nad oes gennych fynediad at nodiadau cleifion, ble a sut y byddwch yn dogfennu eich ymgynghoriad?

Asesiad claf

- Allwch chi ddisgrifio:
- Pathoffisioleg y cyflwr;
 - Dilyniant naturiol;
 - Prognosis;
 - Cwestiynau i gymryd hanes penodol;
 - Diagnosis gwahaniaethol; a
 - Rheolaeth (ffarmacolegol ac anffarmacolegol).
- Os ydych yn ehangu cwmpas eich arfer presgripsiynu i feysydd therapiwtig gwahanol neu gleifion mwy cymhleth e.e. cleifion beichiog neu gleifion pediatrig, efallai y byddwch eisiau canolbwyntio eich dysg ar sut mae'r egwyddorion clinigol yn amrywio yn y maes therapiwtig estynedig neu'r grŵp cleifion.
- Os ydych yn ehangu arfer presgripsiynu yn yr un maes therapiwtig, ond ar gyfer mwy o feddyginiaethau, efallai eich bod yn gyfarwydd â rhai egwyddorion clinigol yn dda ond efallai yr hoffech ganolbwyntio ar yr agwedd ffarmacoleg ar y meddyginiaethau newydd y byddwch yn eu presgripsiynu. D.S. Gellid adnabod anghenion dysgu pellach yn adran Cymhwysedd 2 "*Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol*".
- A ydych chi'n hyderus yn y sgiliau asesu cleifion a diagnosis gwahaniaethol sy'n ofynnol yn eich cwmpas arfer presgripsiynu newydd?
- A oes unrhyw faterion ymlyniad penodol ar gyfer y grwpiau cleifion/cyflwr y dylech fod yn ymwybodol ohonynt?
- Gan bwy allwch chi geisio arweiniad/cymorth a chyfeirio ato os oes angen?

CYMHWYSEDD 2.

Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau clinigol

Rheoli cyflwr/arwydd

Deall y rheolaeth

- Canllawiau e.e. lleol neu genedlaethol e.e. NICE, neu ryngwladol.
- Deall y dulliau anffarmacolegol a ffarmacolegol o reoli'r cyflwr.

Os nad oes cyfarwyddyd, beth fydd yn arwain eich presgripsiynu ac a oes digon o dystiolaeth i gefnogi'ch arfer presgripsiynu?

Deall y ffarmacoleg

Disgrifiwch;

- Ffarmacocineteg/ffarmacodynameg y meddyginiaethau y byddwch yn eu presgripsiynu a'u heffaith ar benderfyniadau presgripsiynu;
- Effaith cydafiachedd a meddyginiaethau eraill ar eich opsiynau rheoli; a
- Ffactorau cleifion penodol y dylech eu hystyried ar gyfer cleifion/meddyginiaethau amrywiol

Ystyried adnoddau penodol sy'n berthnasol i'ch cwmpas arfer presgripsiynu.

Os ydych yn presgripsiynu cyffuriau gwrthficrobaidd, mae'n hanfodol ystyried ymwrthedd cynyddol cyffuriau gwrthficrobaidd a defnyddio adnoddau megis [pecyn cymorth gwrthficrobaidd TARGET](#).

Os ydych yn presgripsiynu ar gyfer cleifion ar ward meddygaeth gyffredinol ac yn symud i bresgripsiynu ar gyfer cleifion sydd ar y ward gofal critigol, efallai y bydd angen i chi ystyried y newidiadau mewn pathoffisioleg a ffarmacodynameg e.e. swyddogaeth gardiaidd ac arenol a allai effeithio ar y feddyginiaeth yn y corff.⁴

Fel arall, os ydych yn symud o bresgripsiynu ar gyfer cleifion sy'n oedolion i gleifion pediatrig neu feichiog, byddai'n rhaid ichi ystyried y newid mewn trwyddedu meddyginiaethau, trin cyffuriau a dosio.

Efallai y bydd angen i chi ystyried unrhyw fath o ffarmacogenomeg sy'n gysylltiedig â'r feddyginiaeth yr ydych yn mynd i fod yn ei phresgripsiynu e.e. profi am alel HLA-B*5701 cyn cychwyn Abacavir ar gyfer cleifion â HIV.

Mae angen i chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o faterion iechyd y cyhoedd y gallai fod angen i chi eu hymgorffori yn eich arfer.

Efallai y byddwch eisiau defnyddio adnoddau gan gynnwys; [The British National Formulary, Summary of Product Characteristics \(SPC\)](#), Renal Drug Handbook, Maudsley Handbook, Neonatal formulary, ayyb.

A oes gennych ymwybyddiaeth o ymwrthedd i wrthfotigau a'r defnydd o ganllawiau gwrthficrobaidd lleol a chenedlaethol?

Ystyriwch fesurau stiwardiaeth gwrthficrobaidd penodol y mae angen i chi eu cwblhau fel rhan o'ch ymarfer presgripsiynu.

CYMHWYSEDD 3. Cyflwyno opsiynau ac ymchwilio i benderfyniad ar y cyd

Opsiynau rheoli

- | | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none">• Lleoliad clinigol yr ymgynghoriad.• Anghenion ychwanegol posibl y lleoliad ymgynghori | <p>Ystyried defnyddio cymhorthion penderfynu ar y cyd i hybu ymgysylltiad, dealltwriaeth a chydlyniad cleifion.</p> <p>Pa faterion sydd i'w hystyried o ran cynaliadwyedd yn eich cwmpas arfer presgripsiynu newydd i gefnogi'r symudiad i GIG sero net?</p> |
|--|--|

CYMHWYSEDD 4 . PRESGRIPSIYNU

Presgripsiynu

O ran y meddyginiaethau rydych chi'n mynd i fod yn eu presgripsiynu, deall y:

- Dôs.
- Arwyddion.
- Gwrth-arwyddion.
- Rhybuddion.
- Effeithiau andwyol.
- Rhyngweithiadau.

Ystyriwch sut y byddwch yn rheoli rhyngweithiadau meddyginiaeth a meddyginiaeth/bwyd posibl.

Os ydych yn presgripsiynu meddyginiaethau "oddi ar y label" neu "ddidrwydded", sicrhewch fod gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r claf/gofalwr.

(Ar hyn o bryd, y presgripsiynwyr anfeddygol sy'n gallu presgripsiynu meddyginiaethau didrwydded yw fferyllwyr a nyrsys).

Dogfennu'r ymgynghoriad

A ydych chi'n hyderus ac yn gymwys ynghylch sut a ble i ddogfennu'ch ymgynghoriad a'i ganlyniad?

A oes angen trosglwyddo unrhyw wybodaeth i eraill e.e. trosglwyddo rhwng darparwyr gofal sylfaenol neu rhwng sectorau? Os felly, sut y cyflawnir hyn

Ystyriwch a fyddai angen cael caniatâd claf cyn trosglwyddo dogfennaeth.

C Y M H W Y S E D D 5. Darparu gwybodaeth

Mae'n bwysig ystyried;

- Llythrennedd iechyd y claf;
- Y wybodaeth benodol ynghylch rhwydi diogelwch y byddwch yn ei darparu; ac
- Angen cyngor hunanreoli pellach.

Pa wybodaeth addas allwch chi ei darparu i glaf/gofalwr edrych arni ynghylch eu cyflwr?

Ystyriwch ddarparu gwybodaeth hawdd ei darllen i gleifion lle bo angen.

Mae rhai adnoddau ar gael mewn sawl iaith. [Gwybodaeth iechyd mewn ieithoedd eraill - GIG \(www.nhs.uk\)](#)

Mae yna lawer o wefannau sy'n cynnig gwybodaeth i gleifion gan gynnwys ar wefan [GIG](#). Mae'n bwysig bod unrhyw wybodaeth a rowch i'r claf yn dod o wefannau ag enw da.

C Y M H W Y S E D D 6. Monitro ac adolygu

Monitro'r driniaeth

Mae'n bwysig monitro canlyniadau, effeithiolrwydd ac unrhyw effeithiau andwyol.

Ystyriwch:

- Pa fonitro sydd ei angen a phryd? e.e. amseriad ymateb i driniaeth
- Pa mor aml y mae angen monitro?
- Pwy sy'n gyfrifol am archebu a dehongli unrhyw brofion?
- Pa gamau sydd angen eu cymryd os byddwch yn gweld nad yw'r feddyginiaeth yn effeithiol neu os yw canlyniad prawf "allan o ystod"?
- Pa effeithiau andwyol y gellir eu profi? Beth fyddwch chi'n ei wneud os byddan nhw'n eu profi? Ystyriwch eich cyfrifoldeb proffesiynol i adrodd am yr effeithiau andwyol i'r MHRA fel rhan o'r cynllun [cerdyn melyn](#).

Cyfathrebu

Drwy gydol yr ymgynghoriad, mae cyfathrebu da rhwng presgripsiynwyr a cleifion yn hanfodol ar gyfer ansawdd y gofal a diogelwch cleifion. Mae cyfathrebu'n dosturiol ac yn glir gyda chleifion a/neu ofalwyr yn hanfodol, gan sicrhau eich bod yn gwrandao ar ac yn parchu eu barn ac yn ymateb i'w pryderon.

Dylai penderfyniad ar y cyd ar reoli gael ei sefydlu bob amser i sicrhau'r driniaeth orau i'r claf.

Parth 2

Llywodraethu presgripsiynu

C Y M H W Y S E D D 7 . Presgripsiynu'n ddiogel

Ystyriwch sut y gall gwallau ddigwydd gyda'r feddyginiaeth(au) yr ydych yn mynd i fod yn eu presgripsiynu neu yn y grwpiau cleifion yr ydych yn presgripsiynu ar eu cyfer.

Ystyriwch y llwybr cyfathrebu y byddwch yn ei ddefnyddio ar gyfer eich ymgynghoriad e.e. wyneb yn wyneb, ffôn, fideo-gynadleda a sut y byddwch yn sicrhau presgripsiynu diogel.

Dysgwch o gamgymeriadau a adroddir yn aml yn eich cwmpas arfer presgripsiynu newydd a sut y gellir eu hatal rhag digwydd.

Os ydych yn newid sector, deall y systemau adrodd a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau critigol.

Ystyriwch a oes angen strwythurau llywodraethu/indemniad pellach ar gyfer ymgynghoriadau amgen boed hynny drwy fideo/ffôn neu ymgynghoriadau wyneb yn wyneb.

C Y M H W Y S E D D 8 . Presgripsiynu'n broffesiynol

Edrych ar ystyriaethau cyfreithiol neu foesegol penodol sydd eu hangen.

A oes unrhyw ffactorau penodol y mae angen i chi eu hystyried yn y grŵp cleifion hwn a allai ddylanwadu ar eich presgripsiynu?

C Y M H W Y S E D D 9 . Gwella arfer presgripsiynu

Pa adnoddau sydd ar gael i chi ar gyfer eich cwmpas arfer presgripsiynu newydd:

- Clybiau cyfnodolion
- Grwpiau cymorth gan gymheiriaid
- Strwythurau cymorth posibl sydd eisoes wedi'u sefydlu?

Mae llawer o gymdeithasau proffesiynol, colegau brenhinol a chyrrff rheoleiddio yn cynnig adnoddau cefnogol sy'n edrych ar sut i bresgripsiynu'n effeithiol e.e. [Good practice in prescribing and managing medicines and devices Y Cyngor Meddygol Cyffredinol \(GMC\) ac In practice: Guidance for pharmacist prescribers General Pharmaceutical Council \(GPhC\) guidance.](#)

C Y M H W Y S E D D 10. Presgripsiynu fel rhan o dîm

Pwy yw eich tîm (yn yr ystyr ehangaf) a beth yw pob un o'u rolau?

A oes angen cymorth a goruchwyliaeth arnoch wrth i chi ehangu cwmpas eich arfer ac os felly, pwy allai ddarparu hyn?

Os ydych chi'n presgripsiynu'n annibynnol yn ymarferol, mae'n hollbwysig gwybod at bwy y gallwch chi atgyfeirio i gael triniaeth bellach er mwyn sicrhau bod y claf yn cael y gofal mwyaf priodol.



2

Cynllunio

Cynllunio sut yr ydych am gyflawni'r ddysg yn y cwmpas arfer presgripsiynu ehangach.

Ar ôl i chi asesu'ch hun yn erbyn pob un o'r cymwyseddau, byddwch wedi adnabod rhai anghenion dysgu.

Mae'n ddefnyddiol trafod y rhain gyda chydweithiwr, cyfoedion, rheolwr, ymarferydd presgripsiynu dynodedig (YPD), neu unigolyn addas arall a allai fod yn presgripsiynu yn yr un maes therapiwtig. Gallant ddarparu syniadau am sut i gyflawni'r anghenion dysgu dymunol a hefyd eich helpu i egluro cwmpas eich arfer presgripsiynu h.y., yr hyn y mae'n ei gynnwys ac yn ei eithrio.

Sicrhewch eich bod yn dogfennu'r meini prawf cynhwysiant/gwahardd ar gyfer y grwpiau cleifion y byddwch yn eu cynnwys yn eich cwmpas arfer presgripsiynu newydd cyn dechrau presgripsiynu.

O'r trafodaethau hyn gallwch greu set o amcanion CAMPUS/SMART (Ffigur 4) a fydd yn arwain eich dysg o amgylch y maes/llleoliad therapiwtig dymunol.

1.

Nodwch beth fyddwch chi'n ei wneud, gwnewch eich nodau'n benodol i sicrhau cynllunio effeithiol a'r gallu i fesur cynnydd a chwblhau.

2.

Diffiniwch pa dystiolaeth fydd yn profi eich bod wedi ehangu'ch cwmpas arfer presgripsiynu, darparwch ffordd o werthuso'r nodau.

3.

Sicrhewch y byddwch yn gallu cyflawni'r nod(au) newydd o bresgripsiynu yn eich maes dymunol.

4.

Yn benodol i'ch rôl fel presgripsiynydd annibynnol a'ch cwmpas newydd o arfer presgripsiynu.

5.

Nodwch bryd y bwriadwch gwblhau'ch cwmpas arfer presgripsiynu ehangach.

Ffigur 4 Eglurhad o amcan CAMPUS



Gweithredu

Cyflawni gweithgareddau dysgu amrywiol yn y meysydd therapiwtig sydd wedi'u hadnabod ar gyfer dysgu.

Gan gydnabod bod pawb yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd, mae'n bwysig adnabod gweithgareddau dysgu sy'n gweddu i'ch arddull dysgu ac sy'n bodloni'ch anghenion dysgu. Isod mae rhai enghreifftiau o wahanol ddulliau y gallech eu hystyried:

Dysgu hunangyfeiriedig

- Edrychwch ar ganllawiau perthnasol, canllawiau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), Crynodebau Gwybodaeth Glinigol (CKS), canllawiau gwrthficrobaidd lleol ac ati.
- Cyrsiau dysgu o bell ar faes therapiwtig penodol lle gallwch weithio ar eich cyflymder eich hun.
- Cyrsiau gan y Sefydliad Addysg Uwch (SAU) yn y maes therapiwtig dymunol.
- Darllen personol ar y pwnc o ystod eang o adnoddau e.e. BNF, SPC, erthyglau cyfnodolion ac ati.
- Mynychu cynadleddau.
- Mynychu gweithdai lle byddwch yn cael eich addysgu gan arbenigwyr yn eich maes therapiwtig dymunol i ehangu eich arfer presgripsiynu, gan roi cyfle i chi ofyn cwestiynau.

Trafodaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriaid

- Yr Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig yn chwarae agwedd hwyluso at ddysgu.
- Cyfarfod â chydweithiwr/cyfoedion/mentor/rheolwr i gael trafodaeth bellach.
- Rhaglenni mentora ar gael gyda:
 - [Llwyfan Mentora'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol](#) ar gael i fferyllwyr trwy wefan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.
 - [e-fentora](#) ar gael i ffisiotherapyddion drwy'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi.
 - Rhaglenni mentora sydd ar gael yn eich sefydliad eich hun.
- Clybiau cyfnodolion neu gyfarfodydd tîm amgen ar gyfer trafodaeth a dysgu a adolygir gan gymheiriaid.

Arsylwi arfer gorau

Arsylwi ar arbenigwr a chynnal ymgynghoriadau dan oruchwyliaeth i sicrhau hyder yn eich maes presgripsiynu dymunol.

Mae'n bwysig ystyried cyflawni dysgu mewn gweithgareddau amrywiol, er mwyn sicrhau cymhwysedd yn eich maes presgripsiynu dymunol.

Gwerthuso

Byddai'n ddoeth asesu'ch anghenion dysgu eich hun er mwyn sicrhau bod eich holl anghenion addysgol wedi'u bodloni.

Argymhellir eich bod yn gwerthuso a yw eich anghenion dysgu wedi'u bodloni naill ai'n rhannol neu'n llawn.

Os nad ydych yn teimlo bod yr holl gymwyseddau wedi'u bodloni, neu os ydych wedi adnabod anghenion dysgu newydd, nodwch ffyrdd y gallech gyflawni'r cymwyseddau angenrheidiol ac ailadroddwch y cylch DPP.



**Astudiaethau
Achos**

Chen, Nyrs presgripsiynu mewn meddygfa meddyg teulu

Mae Chen wedi bod yn presgripsiynu ar gyfer cleifion â ffibriliad atrïaidd a hoffai ehangu i bresgripsiynu ar gyfer cleifion â phwysedd gwaed uchel.

YSTYRIED

Nododd Chen nifer o gleifion yr oedd angen adolygiadau pwysedd gwaed uchel arnynt tra roedd yn eu gweld am eu ffibriliad atrïaidd. O ganlyniad, penderfynodd ehangu ei gwmpas arfer presgripsiynu i drin cleifion â phwysedd gwaed uchel

Diffiniodd Chen ei feini prawf cynhwysiant ymhellach, sef gweld cleifion â cham 1, cam 2 a cham 3 ond byddai'r rhai â phwysedd gwaed uchel malaen yn cael eu heithrio a byddai'n atgyfeirio at yr ymgynghorydd.

Gan ddefnyddio fframwaith cymhwysedd RPS, nododd Chen y cymwyseddau y byddai'n rhaid iddo eu bodloni wrth ehangu ei gwmpas arfer presgripsiynu. Mae Chen yn bwriadu canolbwyntio ei ddysgu ar:


- Asesu'r claf
- Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau clinigol
- Cyflwyno opsiynau ac ymchwilio i benderfyniad ar y cyd
- Presgripsiynu'n ddiogel,
- Darparu gwybodaeth.
- Monitro ac adolygu'r claf.

CYNLLUN

Trafododd Chen ei gynllun ar gyfer dysgu gyda'r arweinydd cardiofasgwlaidd yn ei feddygfa meddyg teulu. Creodd amcan SMART:

1 – Dysgu asesu cleifion â phwysedd gwaed uchel a dysgu'r triniaethau ffarmacolegol ac anffarmacolegol.

2 – Mae Chen yn bwriadu cysgodi cydweithiwr



meddyg teulu mewn clinig pwysedd gwaed uchel. Bydd hefyd yn treulio amser gyda'r cardiolegydd ymgynghorol a'r nyrs arbenigol mewn gofal eilaidd yn eu clinigau pwysedd gwaed uchel.

3 – Bydd hyn yn gyraeddadwy gyda'r dysgu a nodir gan ddamcaniaeth ac arsylwi ar y defnydd ymarferol.

4 – Teimlai Chen fod hwn yn darged perthnasol i'w gyflawni.

5 – Teimlai Chen fod hyn yn gyraeddadwy o fewn 3 mis, yn ystod y mis olaf mae'n bwriadu gweithio'n annibynnol a thrafod ei reolaeth pwysedd gwaed uchel gydag arweinydd Cardiofasgwlaidd ei Feddyg Teulu.

GWEITHREDU

Canllawiau CKS wedi'u hadolygu ar reoli gorbwysedd a geir yn: cks.nice.org.uk/topics/hypertension

Adolygwyd y [Hypertension | Treatment summary | BNF content published by NICE](#)

Wedi cynnal y cwrs ar-lein ar wefan Health Education England [Hypertension - elearning for healthcare \(e-lfh.org.uk\)](#)

Cysgodi'r cardiolegydd ymgynghorol a'r nyrs arbenigol mewn gofal eilaidd.

Cysgodi Meddyg Teulu gyda diddordeb arbennig mewn cardioleg mewn meddygfa.

Wedi dysgu opsiynau triniaeth ffarmacolegol ac anffarmacolegol ar gyfer cleifion.

GWERTHUSO

Ystyriodd Chen ei ddysg. Teimlai fod ei holl gymwyseddau a adnabuwyd bellach wedi'u bodloni ac roedd yn barod i bresgripsiynu yn y maes presgripsiynu newydd hwn.

Omar, Fferyllydd

Omar, sy'n gweithio mewn fferyllfa gymunedol yn presgripsiynu ar gyfer menywod â Heintiau'r llwybr wrinol (UTIs) gan ehangu i gleifion sy'n feichiog ag UTI.

YSTYRIED

Daeth Omar ar draws claf a oedd yn feichiog ac angen triniaeth ar gyfer UTI. Roedd yn rhaid iddo atgyfeirio at y meddyg teulu gan fod hyn y tu hwnt i gwmpas ei arfer presgripsiynu. O ganlyniad, ystyriodd Omar ac roedd eisiau dysgu mwy am UTI yn ystod beichiogrwydd.

Datblygodd dabl yn edrych ar egwyddorion rheoli clefydau gan ganolbwyntio ar ffisioleg beichiogrwydd a triniaeth UTI.

- Cymwyseddau a adnabuwyd yn y fframwaith cymwyseddau yr oedd angen eu bodloni, gan gynnwys:

1.11 Yn gwneud, yn cadarnhau neu'n deall, ac yn dogfennu diagnosis gweithiol neu derfynol trwy ystyried yn systematig gan ystyried amryw bosibilrwydd (diagnosis gwahaniaethol).

1.12 Yn deall y cyflwr (cyflyrau) sy'n cael eu trin, eu dilyniant naturiol, a sut i asesu eu difrifoldeb, eu dirywiad ac ymateb a ddisgwylir i driniaeth.

2.2.1 Yn ystyried ymdriniaethau trin an-ffarmacolegol ac ffarmacolegol

2.3 Yn asesu'r risgiau a'r buddion i'r claf o gymryd neu beidio cymryd meddyginiaeth neu driniaeth.

2.8 Yn cadw'n gyfredol â'i faes arfer ei hun ac yn cymhwyso egwyddorion arfer ar sail tystiolaeth.

2.10 Yn deall ymwrthedd gwrthficrobaidd a rolau atal haint, rheoli a mesurau stiwardiaeth gwrthficrobaidd.

3.1 Ymroi i gynnwys a gweithio gyda'r claf/gofalwr i wneud dewisiadau gwybodus a chytuno ar gynllun sy'n parchu hoffterau'r claf/gofalwr.

4.1 Yn presgripsiynu meddyginiaeth neu ddyfais gydag ymwybyddiaeth gyfredol o'i gweithredoedd, arwyddion, dos, gwrtharwyddion, rhyngweithiadau, rhybuddion ac effeithiau gwrthwynebus.



4.2 Yn deall y potensial ar gyfer effeithiau gwrthwynebus ac yn cymryd camau i adnabod, a'u rheoli, wrth isafu'r risg.

4.3 Yn deall ac yn defnyddio fframweithiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer defnyddio meddyginiaethau.

CYNLLUN

Trafod anghenion dysgu gyda chydweithiwr sydd eisoes yn presgripsiynu gwrthfotigau ar gyfer menywod beichiog ag UTIs

- Wedi trafod yr hyn a oedd i'w ddysgu o amgylch y canllawiau amrywiol ar gyfer trin UTIs mewn menywod beichiog.
- Wedi trafod gwahaniaethau posibl rhwng canllawiau lleol a chenedlaethol rhwng opsiynau triniaeth llinell gyntaf ac ail linell, a chydabyddiaeth ac astudiaeth bellach o amgylch y pwnc hwn yn hanfodol.

GWEITHREDU

Wedi adolygu cyfarwyddyd lleol a chenedlaethol ynghylch diagnosis a rheoli UTIs yn ystod beichiogrwydd

Wedi mynychu cwrs ar-lein ar drin UTIs yn ystod beichiogrwydd, wedi'i asesu drwy gwestiynau aml-ddewis

Darllen hunangyfeiriedig am ymwrthedd gwrthficrobaidd

Wedi cyflwyno ei ddysg mewn sesiynau dysgu grŵp a sefydlwyd yn lleol yn ei ardal.

GWERTHUSO

Ystyriodd Chen ei ddysg. Teimlai fod ei holl gymwyseddau a adnabuwyd bellach wedi'u bodloni ac roedd yn barod i bresgripsiynu yn y maes presgripsiynu newydd hwn. Byddai hyn yn helpu'n sylweddol y cleifion yr oedd bellach yn gallu eu gweld o fewn ei feddygfa.

Sarah, Ffisiotherapydd arbenigol (rhan 1)

Mae Sarah yn ffisiotherapydd arbenigol sy'n presgripsiynu ar gyfer cleifion â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) fel rhan o dîm amlddisgyblaethol. Gwnaeth ei chwrs presgripsiynu cychwynnol i bresgripsiynu doxycycline a prednisolone.

Hoffai ehangu ei harferion presgripsiynu i gynnwys gwrthfotigau eraill.

YSTYRIED

Adnabu Sarah fod cleifion COPD a oedd yn profi gwaethygu aciwt yn aml angen triniaeth ar wahân i prednisolone a doxycycline.

O ganlyniad, roedd Sarah eisiau ehangu i gynnwys gwrthfotigau eraill gan gynnwys amocsicillin a clarithromycin.

Gan ystyried egwyddorion rheoli clefydau, teimlai Sarah fod ganddi ddealltwriaeth dda o ffisioleg COPD. Canolbwyntiodd Sarah ei dysg ar reoli gwaethygu aciwt COPD gan edrych ar gyflwyno, ymchwilio, rheoli, monitro, baneri coch a rhwydi diogelwch.


Gan ystyried fframwaith cymhwysedd yr RPS penderfynodd Sarah ganolbwyntio ar:

- Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau clinigol
- cyflwyno opsiynau ac ymchwilio i benderfyniad ar y cyd
- presgripsiynu,
- darparu gwybodaeth,
- monitro ac adolygu'r claf.

CYNLLUN

Gan fod gan Sarah berthynas dda â'i hymarferydd presgripsiynu dynodedig (YPD), creodd amcan campus.

- 1 – Dysgu am ffarmacolegol amocsicillin, a clarithromycin.
- 2 – Cyn presgripsiynu i gleifion yn unig, mae Sarah yn bwriadu gweld cleifion â'i YPD gan sicrhau cymhwysedd a hyder.



3 – Ar yr amod nad oes unrhyw ffactorau allanol yn effeithio ar hyn, mae'r amcan yn gyraeddadwy.

4 – Teimlai YPD a Sarah fod hyn yn amcan perthnasol.

5 – Hoffai allu presgripsiynu gwrthfotigau eraill o fewn 2 fis.

GWEITHREDU

Adolygodd ganllawiau lleol ynghylch presgripsiynu gwrthfotigau ar gyfer cleifion â gwaethygiadau aciwt o COPD ac edrychodd ymhellach ar Grynodedau Gwybodaeth Glinigol ynghylch gwaethygu aciwt o COPD.

Edrychodd ar adnoddau amrywiol o ran y meddyginiaethau e.e. SPC BNF.

Mynychodd weminarau a chysiau ar-lein am drin cleifion â gwaethygiadau aciwt o COPD.

Trefnodd gyfres o sesiynau addysgu gyda chydweithwyr iau gyda'i YPD, i addysgu am reoli gwaethygu aciwt COPD.

Trin cleifion â gwaethygiadau aciwt o COPD gyda'r YPD yr oedd yn ei chysgodi.

GWERTHUSO

Gwerthusodd Sarah gyda'i YPD a chytunodd fod ei hanghenion dysgu wedi'u diwallu. Roedd Sarah a'i YPD yn hapus ei bod yn gallu presgripsiynu ar gyfer cleifion â gwaethygu aciwt. Maent yn bwriadu cyfarfod yn aml yn y cyfnod cychwynnol i drafod cleifion cymhleth y gall Sarah eu trin a chynllunio i leihau amllder y cyfarfodydd gydag amser.

Sarah, Ffisiotherapydd arbenigol (rhan 2)

Mae Sarah yn ffisiotherapydd arbenigol sy'n presgripsiynu ar gyfer cleifion â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) fel rhan o dîm amlddisgyblaethol.

Mae eisoes wedi ehangu ei chwmpas arfer presgripsiynu yn unol â rhan 1. Adnabu Sarah hefyd fwch o ran presgripsiynu'r feddyginiaeth, roflumilast, ac ehangu ei chwmpas arfer presgripsiynu ymhellach.

YSTYRIED

Adnabu Sarah fod angen cleifion COPD yr oedd yn eu gweld yn rheolaidd, a oedd yn gorfod cael eu cyfeirio at yr ymgynghorydd ar gyfer presgripsiynu'r feddyginiaeth, roflumilast. O ganlyniad, roedd eisiau ehangu ei chwmpas arfer presgripsiynu ymhellach i bresgripsiynu roflumilast.

Gan ystyried fframwaith cymhwysedd yr RPS penderfynodd Sarah ganolbwyntio ar;

- Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau clinigol
- Cyflwyno opsiynau ac ymchwilio i benderfyniad ar y cyd
- Presgripsiynu'n ddiogel,
- Darparu gwybodaeth,
- Monitro ac adolygu'r claf.



CYNLLUN

Fel yn rhan 1 yr astudiaeth achos, roedd gan Sarah berthynas dda â'i hymarferydd presgripsiynu dynodedig (YPD), a chreodd amcan campus.

- 1** – Dysgu am ffarmacoleg roflumilast a gallu adnabod pryd y bydd yn ei ddefnyddio'n ymarferol.
- 2** – Mae Sarah yn bwriadu adnabod cleifion y mae'n credu bod angen triniaeth roflumilast arnynt. Mae Sarah yn bwriadu adnabod y cleifion hyn wrth weld cleifion yn y gymuned. I ddechrau, bydd yn trafod y cleifion y mae wedi'u hadnabod gyda'i YPD gan sicrhau cymhwysedd a hyder.
- 3** – Ar yr amod nad oes unrhyw ffactorau allanol yn effeithio ar Sarah, teimlai fod modd cyflawni'r amcan hwn.
- 4** – Teimlai DPP a Sarah fod hyn yn amcan perthnasol.
- 5** – Hoffai allu presgripsiynu gwrthfotigau eraill o fewn 2 fis.

GWEITHREDU

Wedi adolygu cyfarwyddyd cenedlaethol ynghylch defnyddio roflumilast. Wedi edrych ar arfarniad technoleg NICE o roflumilast i ddeall y dystiolaeth y tu ôl i'w defnydd.

- Wedi edrych ar adnoddau amrywiol o ran roflumilast a'r gwrth-arwyddion, rhybuddion, adweithiau andwyol, rhyngweithiadau gan ddefnyddio'r BNF a'r SPC.
- Deall pryd y dylid cychwyn roflumilast yn unol â [1 Argymhellion | Roflumilast for treating chronic obstructive pulmonary disease | Guidance | NICE](#)
- Wedi creu adnodd offer penderfynu, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hadnabod yn briodol ar gyfer roflumilast ac wedyn yn cael eu cychwyn a'u trin yn briodol. Roedd yr adnodd offer penderfynu yn cynnwys gwybodaeth fel:
 - arwydd yn unol â fformiwlâu lleol
 - cofnodi'r prawf swyddogaeth iau gychwynnol a'r pwysau diweddaraf
 - ymwybyddiaeth cleifion o risgiau, sgil-ffeithiau a rhybuddion meddyginiaeth
 - monitro parhaus bob 3 mis
- Gofynnodd Sarah i'r offeryn adnoddau hwn gael ei wirio gan yr ymgynghorwyr anadlol, nyrsys, fferyllwyr a ffisiotherapyddion yn ei hymddiriedolaeth iechyd a'i chymeradwyo fel y bo'n briodol.
- Adnabu Sarah gleifion yr oedd hi'n teimlo eu bod yn briodol ar gyfer triniaeth roflumilast, siaradodd drwy ei rhesymeg wrth ddefnyddio'r adnodd offer penderfynu a greodd.

GWERTHUSO

Ystyriodd Sarah y cymwyseddau yr oedd wedi'u hadnabod a theimlodd fod yr holl gymwyseddau'n cael eu bodloni ac roedd hi'n teimlo'n hyderus i ddechrau presgripsiynu roflumilast ar gyfer cleifion COPD.

Daniel Optometrydd, yn gweithio mewn

Practis optegol

Mae Daniel, sy'n gyffredinol yn rheoli blepharitis ysgafn, eisiau ehangu ei arfer presgripsiynu i reoli cleifion â blepharitis anhydrin neu fwy difrifol.

YSTYRIED

Nodwyd bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio i'r lleoliad gofal eilaidd i gael triniaeth bellach ar gyfer blepharitis, pan fyddai modd gwneud hynny o fewn practis optegol.

Gan ddefnyddio'r fframwaith cymhwysedd, nododd Daniel fod ganddo gymwyseddau mewn:


- Asesu'r claf
- Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer penderfyniadau clinigol
- Cyflwyno opsiynau ac ymchwilio i benderfyniad ar y cyd
- Presgripsiynu'n ddiogel
- Darparu gwybodaeth
- Monitro ac adolygu'r claf.

CYNLLUN

Gan fod Daniel yn gweithio'n annibynnol mewn practis optegol, bu'n trafod ei gynllun ar gyfer dysgu gyda chydweithiwr mewn practis cyfagos a oedd eisoes yn presgripsiynu yn y maes hwn.

1 – Dysgu am asesu blepharitis anhydrin a mwy difrifol ar glaf o'i gymharu â chlefyd ysgafn. Ymhellach, deall y newidiadau mewn rheolaeth claf yn ôl diagnosis. Nododd Daniel hefyd yr hoffai ddeall sut mae rosacea yn ymddangos. Roedd hyn oherwydd y cysylltiad â rosacea yn achosi blepharitis difrifol, felly teimlai y byddai'n bwysig adnabod y symptomau er mwyn gallu cyfeirio'r claf am driniaeth bellach yn ôl yr angen.

2 – Mae Daniel yn bwriadu cynnal darllen hunan-gyfeiriedig, mynychu cyrsiau DPP ac adolygu canllawiau lleol a chenedlaethol.



3 – Bydd hyn yn gyraeddadwy yn ogystal â dealltwriaeth dda o blepharitis ac yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddo.

4 – Teimlai Daniel y byddai'n gallu cyflawni hyn gan fod ganddo brofiad da yn y maes therapiwtig hwn.

5 – Teimlai Daniel, wrth iddo ehangu o fewn yr un maes therapiwtig, y byddai'n gallu cyflawni'r ddysg o fewn 8 wythnos.

GWEITHREDU

- Wedi adolygu cyfarwyddyd clinigol lleol, [cenedlaethol](#) a phroffesiynol ynghylch diagnosis a rheoli blepharitis.
- Wedi mynychu cwrs DPP ar-lein ar drin blepharitis difrifol.
- Wedi ymgymryd â darlleniad hunan-gyfeiriedig ar adnabod arwyddion a symptomau sy'n awgrymu sgîl-ffeithiau sy'n gysylltiedig â'r feddyginiaeth ar bresgripsiwn, a'r potensial ar gyfer ymwrthedd gwrthficrobaidd.
- Wedi mynychu cyrsiau DPP rheolaidd ac yn dilyn canllawiau clinigol perthnasol i gael y wybodaeth ddiweddaraf am reoli blepharitis.
- Wedi edrych ar wybodaeth y claf ynghylch y ddau gyflwr hyn, [Blepharitis](#) - a'r driniaeth bosibl y byddai'n bwriadu ei phresgripsiynu, gan gynnwys azithromycin argroenol a tetracyclines systemig.
- Wedi dysgu sut i adnabod [ocular rosacea](#).

GWERTHUSO

Ar ôl 8 wythnos o wneud gweithgareddau dysgu amrywiol mae Daniel yn teimlo'n hyderus i bresgripsiynu yn y maes hwn. Mae wedi trefnu sesiynau parhaus ymhellach gyda'i gydweithiwr sy'n gweithio mewn practis arall i sicrhau bod cymorth ar gael pe bai angen.

Hazel, Radiograffydd Therapiwtig

Mae Hazel yn radiograffydd therapiwtig arbenigol sy'n gweithio ym maes niwro-oncoleg, yn asesu, yn monitro ac yn presgripsiynu ar gyfer cleifion sy'n cael radiotherapi a chemotherapi ac mewn apwyntiadau dilynol hirdymor i gleifion bôn penglog.

Mae llawer o'i chleifion ar feddyginiaeth gwrthdrawiadau ac mae eisoes yn presgripsiynu ail feddyginiaeth os oes angen yn ystod y driniaeth.

YSTYRIED


Roedd cleifion Hazel yn dod i'r amlwg gyda mwy o weithgaredd trawiad a thrawiad cychwynnol yn debygol o fod wedi'i ysgogi oherwydd cemotherapi radiotherapi. Roedd eisiau edrych ar y goblygiadau o ran presgripsiynu i'r cleifion hyn

Adnabu Hazel gleifion y bu'n rhaid eu hatgyfeirio at eu hymgynghorydd neu gofrestrydd os oeddent yn mynd i Radiotherapi gyda symptomau sy'n debygol o ddangos gweithgaredd trawiad, fodd bynnag, wrth i Hazel symud i'w rôl fel Uwch Ymarferydd Clinigol, adnabu angen y claf iddi ehangu ei chwmpas arfer presgripsiynu.

CYNLLUN

Gan ddefnyddio amcanion CAMPUS cynlluniodd Hazel y meysydd i'w cwmpasu a sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni.

- 1 – Adolygu'r llenyddiaeth ynghylch trawiadau a ysgogwyd oherwydd tiwmorau niwrolegol a'u triniaethau. Adolygu ffarmacoleg clobazam a levetiracetam ynghyd ag arwyddion
- 2 – Meincnodi yn erbyn canllawiau epilepsi NICE, trafod ag arbenigwr epilepsi a goruchwyliwr clinigol.
- 3 – O ystyried dysg flaenorol a phrofiad, dylai'r canlyniad a ddymunir fod yn gyraeddadwy.
- 4 – O ystyried bod Hazel wedi bod mewn sefyllfa sawl gwaith o adolygu cleifion â gweithgarwch trawiad cynyddol neu newydd, mae'n berthnasol iawn yn y dyfodol y byddai ei chymhwysedd i bresgripsiynu o fudd i gleifion a'r gwasanaeth cyfan.



5 – Anelu i waith llawn gwybodaeth gael ei wneud ymhen 1 mis a thrafodaeth derfynol gyda'r goruchwyliwr clinigol ymhen dau fis.

GWEITHREDU

Wedi adolygu canllawiau epilepsi NICE

Wedi chwilio am lenyddiaeth ynghylch trawiadau a ysgogwyd yn y lleoliad oncoleg

Wedi adolygu SPC a BNF ar gyfer clobazam a levetiracetam

Wedi edrych ar ddarparu gwybodaeth i gleifion a rhwydi diogelwch

Wedi cysgodi nyrs epilepsi arbenigol a mynychu sesiynau DPP epilepsi

GWERTHUSO

Cyfarfu Hazel â'i goruchwyliwr clinigol a thrafod ei chanfyddiadau a'i phryderon ynghylch y diffyg arweiniad clir yn y llenyddiaeth.

Roedd cytundeb y dylai presgripsiynu ddigwydd o hyd dan arweiniad y gwasanaeth epilepsi arbenigol ond bod gan Hazel ddigon o wybodaeth am gyffuriau a rhwydi diogelwch i hysbysu cleifion a pherthnasau/gofalwyr am driniaeth ac i ddarparu presgripsiwn addas wrth aros am adolygiad gan arbenigwr yn unol â chyfarwyddyd NICE.

Mae Hazel yn bwriadu llunio taflen wybodaeth i gleifion sy'n cyflwyno â'u trawiad cyntaf neu gynnydd mewn gweithgaredd trawiadau wrth fynd trwy driniaeth oncolegol.

Fel rhan o DPP parhaus bydd Hazel yn ceisio dilyn canlyniad treial diweddar ac unrhyw ychwanegiadau cyfredol at y llenyddiaeth gyda'r nod o lunio cyfarwyddyd pellach gyda mewnbwn gan arbenigwr epilepsi.

Timothy, Fferyllydd Ysbyty

Hyfforddodd Timothy yn wreiddiol i bresgripsiynu warfarin i gleifion sy'n oedolion â ffibriliad atrïaidd. Fodd bynnag, wrth i reolaeth cleifion â ffibriliad atrïaidd ddatblygu i gynnwys mwy o wrthgeulyddion, mae eisiau ehangu ei gwmpas arfer presgripsiynu i gynnwys presgripsiynu gwrthgeulyddion geneuol uniongyrchol (DOACs) ar gyfer cleifion sy'n oedolion.


YSTYRIED

Nododd Timothy fod llawer o gleifion yn cael eu hatgyfeirio ar gyfer cychwyn DOACs fel triniaeth amgen i warfarin. Adnabu y byddai mewn sefyllfa dda i ddechrau neu newid triniaeth os oedd hynny'n briodol.

Roedd ei wybodaeth am ffibriliad atrïaidd yn helaeth, ond roedd eisiau dysgu mwy am reoli ffibriliad atrïaidd yn benodol pan ellir defnyddio DOACs. Penderfynodd ganolbwyntio ei ddysg ar agwedd ffarmacoleg y meddyginiaethau hyn.

CYNLLUN

- 1 – Roedd gan Timothy wybodaeth dda am ffibriliad atrïaidd. Roedd eisiau canolbwyntio ei ddysg ar yr agwedd ffarmacoleg ar DOACs gan ddysgu mwy am yr opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol.
- 2 – Mae Timothy yn bwriadu cyflawni dysgu hunangyfeiriedig a hefyd treulio amser yn cysgodi cardiolegydd mewn clinig ffibriliad atrïaidd. Mae'n bwriadu cysgodi fferyllydd arall sydd eisoes yn presgripsiynu DOACs.
- 3 – Teimla y bydd yn gyraeddadwy gan ei fod yn deall gwrthgeulo mewn ffibriliad atrïaidd a bydd yn canolbwyntio mwy o'i ddysgu ar yr agwedd ffarmacoleg.
- 4 – Pan drafododd Timothy hyn gyda'i gydweithiwr, cardiolegydd ymgynghorol, roeddent yn teimlo y byddai'n gallu ei gyflawni.
- 5 – Oherwydd ei ddealltwriaeth a'i wybodaeth flaenorol o ffibriliad atrïaidd, roedd yn mynd i anelu at ddechrau presgripsiynu'n annibynnol ymhen 12 wythnos ar ôl dechrau.



GWEITHREDU

Myfyrion Timothy ar y canllawiau ar gyfer gwrthgeulo mewn ffibriliad atrïaidd, gan edrych ar [gyfarwyddyd NICE](#) a hefyd fformiwlari lleol o ran y DOAC sydd ar gael. Astudiwyd ymhellach [gyfarwyddyd NICE](#) mewn perthynas â DOACs penodol.

Cynhaliodd Timothy fodiwl e-ddysgu ar DOACs.

Edrychodd Timothy ar adnoddau amrywiol gan gynnwys y BNF, SPC (Rivaroxaban, Dabigatran, Apixaban ac Edoxaban)

Bu'n cysgodi cardiolegydd ymgynghorol yn ystod cyfnod o 4 wythnos mewn clinigau lle byddai cleifion yn cael eu cychwyn ar DOACs. Am 8 wythnos arall, adnabu Timothy gleifion a chychwynnodd driniaeth DOAC yn ôl yr angen, o dan oruchwyliaeth y cardiolegydd ymgynghorol.

Mynychodd Timothy gynhadledd lle cafwyd darlithoedd ar bresgripsiynu DOACs ar gyfer cleifion â Ffibriliad Atrïaidd.

Ymchwiliodd Timothy i'r llenyddiaeth a darllenodd sawl papur yn ymwneud â DOACs.

Rhododd Timothy sesiwn addysg ar DOACs i'w gydweithwyr.

Adnabu Timothy adnoddau ar gael i helpu cleifion wrth ddeall eu triniaeth gwrthgeulo ([Rivaroxaban](#), [Dabigatran](#), [Apixaban](#) ac [Edoxaban](#))

GWERTHUSO

Trafododd Timothy ei gwmpas arfer presgripsiynu ehangach gydag ymgynghorydd cardioleg a oedd yn arbenigo mewn gwrthgeulo. Teimlai'r ddau fod yr holl gymwyseddau cychwynnol a nodwyd yn y fframwaith cymhwysedd wedi'u bodloni. Cynigiwyd cefnogaeth barhaus i Timothy. Mae Timothy hefyd yn bwriadu ymuno â chlwb cyfnodolion.

Cyfeiriadau

1. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2020. Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer pob Presgripsiynydd. Llundain: RPS
2. Adran Iechyd. 2022. Prescribing by Non-Medical Healthcare Professionals | Department of Health. [ar-lein] Ar gael yn: www.health-ni.gov.uk/articles/pharmaceutical-non-medical-prescribing [Cyrchwyd 3 Chwefror 2022].
3. Broadwell, Martin M. (20 Chwefror 1969). "Teaching for learning (XVI)". wordsfityspoken.org. The Gospel Guardian Broadwell
4. Blot SI, Pea F, Lipman J. The effect of pathophysiology on pharmacokinetics in the critically ill patient – Concepts appraised by the example of antimicrobial agents. Advanced Drug Delivery Reviews. 2014;77:3–11. doi: [10.1016/j.addr.2014.07.006](https://doi.org/10.1016/j.addr.2014.07.006)



Datganiad


Cyfarwyddyd yn unig yw'r ddogfen hon, ac nid yw'n gwarantu cymhwysedd presgripsiynydd unigol, cyfrifoldeb proffesiynol y presgripsiynydd yw hynny.

Mae astudiaethau achos wedi'u haddasu at ddibenion y ddogfen hon.

Rhestr Wirio

Dylid nodi Meini Prawf Cynhwysiant a Gwahardd ar gyfer Cwmpas Arfer Newydd a'ch lleoliad ar yr adeg hon.

Nodwch sut rydych eisiau ehangu eich cwmpas arfer presgripsiynu gan ddefnyddio'r ffeithlun



Yr Ymgynghori- Ystyried

Asesu'r claf

- Lleoliad yr ymgynghoriad
Ystyriaethau
Asesiad y Claf
- pathoffisioleg y cyflwr;
 - dilyniant naturiol
 - prognosis
 - Cwestiynau i gymryd hanes penodol;
 - Diagnosis gwahaniaethol
 - Rheolaeth (ffarmacolegol ac anffarmacolegol).

Adnabod opsiynau triniaeth ar sail tystiolaeth ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau clinigol

- Rheoli cyflwr/arwydd
Deall ffarmacoleg
Opsiynau rheoli
Anffarmacolegol a ffarmacolegol

Cyflwyno opsiynau a dod i benderfyniad ar y cyd

Presgripsiynu

- Deall y feddyginiaeth(au):
- Dos
 - Arwyddion
 - Gwrth-arwyddion
 - Rhybuddion
 - Sgil effeithiau
 - Rhyngweithiadau cyffuriau

Dogfennu'r ymgynghoriad. Darparu gwybodaeth

Monitro ac adolygu

Llywodraethu presgripsiynu - Ystyried

Presgripsiynu'n ddiogel

Presgripsiynu'n broffesiynol

Edrych ar ystyriaethau cyfreithiol neu foesebol penodol sy'n ofynnol

Gwella arfer presgripsiynu

Presgripsiynu fel rhan o dîm

Os yn presgripsiynu'n annibynnol yn ymarferol, gwybod ble i atgyfeirio y claf am driniaeth bellach yn ôl yr angen.

Asesu'ch hun yn erbyn Fframwaith Cymhwysedd RPS a dysgu am eich maes presgripsiynu dymunol

Cynllunio amcan CAMPUS

Cynnal gweithgareddau dysgu

Gwerthuso gan sicrhau bod eich anghenion dysgu yn y maes presgripsiynu dymunol wedi'u bodloni

Cyfranwyr

Reem El-Sharkawi (Awdur arweiniol)

Cymrawd Arweinyddiaeth Glinigol Cymru,
Llywodraeth Cymru

Darrell Baker (Chair)

Cyfarwyddwr Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Lloyd Hambridge

Dirprwy Brif Swyddog Fferyllol Cymru,
Llywodraeth Cymru

Elen Jones

Cyfarwyddwr Cymru,
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Jon Lloyd Jones

Arweinydd Polisi
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Dr Karen Hodson

Uwch Ddarlithydd mewn Arfer Fferyllol
Prifysgol Caerdydd

Regina Ahmed

Rheolwr Cyfarwyddyd
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Wing Tang

Cyfarwyddwr Cyswllt Dros Dro ar gyfer Cefnogaeth
Broffesiynol, Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Aileen O'Hare (Parke gynt)

Cymrawd Clinigol y Prif Swyddogion Fferyllol ac
Arolygydd Arbenigol,
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Dr Paramdeep Bilkhu

Cynghorydd Clinigol
Coleg yr Optometryddion

Fiona Gibb

Pennaeth Addysg
Coleg Brenhinol y Bydwagedd

Hannah Morley

Cynghorydd Proffesiynol
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Pip White

Cynghorydd Proffesiynol
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi

Chris Bell

Arbenigwr Datblygu Safonau
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Parbir Jagpal

Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-raddedig Ysgol
Fferylliaeth
Prifysgol Birmingham.

Louise Allen

Cynghorydd Fferylliaeth Gymunedol
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Andrew Mikhail

Uwch Gynghorydd Clinigol ac Arolygydd Arbenigol
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
Prif Fferyllydd
Arweinydd Presgripsiynu Digidol ac Anfeddygol yn Sussex
Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Cymunedol

Catherine Picton

Awdur Fframwaith Cymhwysedd RPS
Ymgynghorydd Gofal Iechyd a Pholisi

Dr Trudi McIntosh

Uwch Ddarlithydd mewn Ymarfer Fferylliaeth,
Prifysgol Robert Gordon, Aberdeen

Gary Morris

Uwch Ymarferydd Ffisiotherapi
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda Darlithydd, Ysgol
Gwyddorau Gofal Iechyd, Prifysgol Caerdydd

Jonathan Underhill

Cynghorydd Clinigol Ymgynghorol Meddyginiaethau
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd
a Gofal

Fiona Gibb

Pennaeth Addysg
Coleg Brenhinol y Bydwagedd

Nicola Davis-Job

Cynghorydd Gofal Aciwt ac Arwain,
Coleg Brenhinol y Nyrsys

Neha Ramaiya

Uwch Gynghorydd Clinigol ac Arolygydd Arbenigol
Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

Hazel Boyce

Radiograffydd Therapiwtig Uwch
Cymdeithas y Radiograffwyr

Dr Fran Lloyd

Deon Fferylliaeth Ôl-raddedig Cyswllt
Canolfan Gogledd Iwerddon ar gyfer Dysgu a Datblygu
Fferylliaeth
Prifysgol y Frenhines Belfast

Peter Hawkes

Aelod lleyg

Debra Roberts

Deon Cyswllt Fferylliaeth

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

David Rovardi

Fferyllydd Presgripsinydd Annibynnol a Chofrestredig

Cynghorydd Meddyginiaethau Arbenigol Parafeddygol

Coleg y Parafeddygon

Adele Mott

Fferyllydd Clinigol Arbenigol, Gastroenteroleg

a Maeth

Ysbyty Coleg Prifysgol Llundain

Debbie Sharman

Podiatrydd Ymgynghorol (Diabetes)

Arweinydd proffesiynol Podiatreg a Darlithydd

Prifysgol Southampton

Andrew Lilley

Rheolwr Gwasanaethau Clinigol Fferylliaeth

Ysbyty Plant Alder Hey

Angela Alexander, MBE

Yr Athro Emerita

Prifysgol Reading

Rachael Gledhill

Arweinydd Polisi

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

Dr Rachel Bruce

Prif Arweinydd Presgripsiynu a Sgiliau Clinigol,

Addysg GIG yr Alban

Simon Wilkins

Athro Cyswllt (Fferyllfa)

Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe

Claire Nevinson

Dirprwy Uwcharolygydd Fferyllydd - Arloesedd

a Phresgripsiynu

Boots UK

Julie Greenfield

Rheolwr Fforwm Fferylliaeth Gogledd Iwerddon,

Fforwm Fferylliaeth Gogledd Iwerddon

Simon Matthews

Dirprwy Brif Fferyllydd,

Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Medway

Jodie Gwenter

Fferyllydd Arweiniol Addysg a Hyfforddiant,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Marc Donovan

Prif Fferyllydd

Boots DU

Diolchiadau

Stuart Carter

Arweinydd Cynnwys Digidol,

Cymdeithas Fferyllol Frenhinol

Nick Hard

Cyfarwyddwr,

Planning Unit

Jade Bazytkiewicz

Ffisiotherapydd Anadlol Arbenigol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**ROYAL
PHARMACEUTICAL
SOCIETY**

